O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 7 (Cy. 3)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan y Tyrpeg i Gylchfan Mamheilad, Tor-faen) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012

Wedi'i wneud	*3 Ionawr 2012*
Yn dod i rym	*9 Ionawr 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Amwythig (A4042) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd gael ei gyfyngu neu ei wahardd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall,**(2)** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Ionawr 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan y Tyrpeg i Gylchfan Mamheilad, Tor-faen) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 9 Ionawr 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A4042 rhwng Cylchfan y Tyrpeg a Chylchfan Mamheilad ym Mwrdeistref Sirol Tor-faen a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, heblaw cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal na pheri na chaniatáu i unrhyw feic pedal gael ei reidio ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

8. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 yn ystod yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 7 ar waith.

9. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 yn gymwys ond yn ystod yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y mae'n cyfeirio atynt yn weithredol.

10. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 3 Ionawr 2012

G R Morgan
GARETH MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ATODLENNI

ATODLEN 1
Gwahardd Cerbydau

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o Gylchfan Pont-y-pŵl hyd at Gylchfan Court Farm.

Y darn o gerbytffordd gylchynol Cylchfan Court Farm sy'n gorwedd rhwng y ffordd ymadael tua'r de a'r ffordd ymuno tua'r gogledd.

Y darn o'r gilfan ar gerbytffordd y gefnffordd tua'r de sydd wedi'i lleoli 282 metr i'r gogledd o drosbont New Road.

Y darn o'r gilfan ar gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd sydd wedi'i lleoli 317 metr i'r gogledd o drosbont New Road.

ATODLEN 2
Gwahardd Beicwyr

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o Gylchfan Pont-y-pŵl hyd at Gylchfan Court Farm.

ATODLEN 3
Terfyn Cyflymder 50 mya

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o allanfa Cylchfan y Tyrpeg tua'r gogledd hyd at bwynt 850 metr i'r gogledd o Gylchfan Mamheilad.

ATODLEN 4
Terfyn Cyflymder 40 mya

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 850 metr i'r de o Gylchfan Pont-y-pŵl hyd at bwynt 850 metr i'r gogledd o Gylchfan Mamheilad.

ATODLEN 5
Terfyn Cyflymder 10 mya a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 500 metr i'r gogledd-ddwyrain o bwynt canol Cylchfan y Tyrpeg hyd at bwynt 729 metr i'r gogledd-ddwyrain o bwynt canol Cylchfan Court Farm.